Beibl i Blant

yn cyflwyno

# Duw yn anrhydeddu Joseff y Caethwas



Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: M. Maillot; Lazarus; Alastair P.

addaswyd gan: M. Maillot; Sarah S.

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children

www.M1914.org

©2021 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Cafodd Joseff ei roi yn y carchar ar gam gan ei gyn-feistr Potiffar. Bu Joseff yn ufudd ac yn barod i helpu yn y carchar.



Fe wnaeth y warden ei drystio, a'i wneud yn gyfrifol am roi trefn ar fywyd y carchar. Gan fod Duw gyda Joseff, roedd y carchar yn le gwell i bawb.



Roedd pobydd a bwtler y brenin yn y carchar. “Pam ydych chi mor drist?” gofynnodd Joseff iddyn nhw un diwrnod.



“Does neb yn gallu egluro ystyr ein breuddwydion,” atebodd y dynion druan. “Mae Duw’n gallu!” meddai Joseff. Disgrifiwch eich breuddwydion.”



“Dyma ystyr dy freuddwyd” meddai Joseff wrth y bwtler. “Mewn tri diwrnod bydd y brenin yn dy dderbyn di’n ôl. Cofia amdana i, a gofyn i’r Pharo fy ngadael i’n rhydd”.



Roedd breuddwyd y pobydd yn newyddion drwg. “Byddi’n cael dy ladd mewn tri diwrnod,” meddai Joseff.  Daeth y ddwy freuddwyd yn wir.



Ond anghofiodd y bwtler am Joseff nes i'r Pharo ddeffro un diwrnod yn anesmwyth. "Rydw i wedi cael breuddwyd" meddai. Doedd neb o'i gynghorwyr yn gallu esbonio ystyr y freuddwyd. Yna cofiodd y bwtler am Joseff yn y carchar a dywedodd wrth y Pharo amdano.



Anfonodd Pharo am Joseff yn syth. “Neges gan Dduw ydy dy freuddwyd,” esboniodd Joseff wrth y brenin. “Bydd digon o fwyd yn yr Aifft am saith mlynedd, ac yna bydd saith mlynedd o newyn difrifol.”



“Rhaid gwneud cynlluniau i storio bwyd dros y saith mlynedd o ddigon,” oedd cyngor Joseff i Pharo, “neu bydd dy bobl yn marw o newyn.” “Mae Duw gyda ti,” dywedodd Pharo. “Rwyt ti’n mynd i reoli popeth yn yr Aifft. Dim ond fi fydd yn bwysicach na ti.”



Cafwyd saith mlynedd a digon o fwyd.  Yna saith mlynedd o newyn.  Doedd dim bwyd yn unman ond yn yr Aifft.  Roedden nhw wedi bod yn ddoeth a chasglu grawn a'i storio.  Ond roedd teulu Jacob heb fwyd yn eu gwlad nhw.



Aeth pobl o bob gwlad i'r Aifft i brynu grawn. "Rhaid i chi fynd hefyd," gorchmynnodd Jacob i'w feibion, "neu fe wnawn ni farw o newyn." Wedi cyrraedd yr Aifft, aeth y meibion ati i brynu bwyd.



Plygodd meibion Jacob yn isel o flaen y person pwysig oedd yn gyfrifol am yr Aifft. Wnaethon nhw ddim adnabod Joseff, eu brawd.



Ond roedd Joseff yn gwybod pwy oedden nhw! Cofiodd Joseff am ei freuddwydion pan yn blentyn.  Roedd Duw wedi gwneud i'w frodyr blygu o'i flaen.



Roedd Joseff yn ddoeth iawn.
Siaradodd yn angharedig gyda
nhw a chadw Simeon, ei
frawd, fel gwystl.



“Rydw i am i chi gymryd bwyd, mynd adref a dod yn ôl gyda’ch brawd bach,” gorchmynnodd.  “Dyna sut wnewch chi brofi bod chi ddim yn ysbiwyr.”



Roedd y brodyr yn meddwl bod Duw yn eu cosbi am werthu Joseff fel caethwas yr holl flynyddoedd yn ôl.



Roedd Jacob a'i feibion yn methu deall. "Gawson ni hyd i'n harian wedi ei ddychwelyd yng nghanol y grawn. Ac fe ddywedodd y llywodraethwr fod yn rhaid mynd yn ôl â Benjamin."



Doedd Jacob ddim am adael i Benjamin fynd. Ond cyn hir, doedd dim bwyd ar ôl. Roedd yn rhaid i'r brodyr fynd yn ôl i'r Aifft. Aeth Benjamin gyda nhw.



Pan welodd Joseff Benjamin gorchmynnodd ei weision i baratoi gwledd fawr. Cafodd y brodyr wahoddiad. “Ydy’ch tad yn fyw ac yn iach?” gofynnodd Joseff. Efallai ei fod wedi dechrau meddwl sut i gael pawb o’i deulu at ei gilydd.



Roedd Joseff am wybod os oedd ei frodyr yn wirioneddol sori am wneud peth mor ddrwg flynyddoedd yn ôl.  Ar ddiwedd y wledd cyhuddodd y brodyr o ddwyn.

Dywedodd “Fel cosb, rydw i am gadw Benjamin yma fel caethwas.”



“F’arglwydd”, plediodd Jwda, “gad i mi fod yn gaethwas yn lle fy mrawd.” Sylweddolodd Joseff bod Jwda wedi newid – fe oedd wedi awgrymu gwerthu Joseff yn y lle cyntaf.



Doedd Joseff ddim yn gallu cuddio ei gariad at ei deulu mwy. Gwnaeth i'r Eifftiaid i gyd adael, ac yna dechreuodd grio.




“Joseff, eich brawd, ydw i, yr un wnaethoch chi ei werthu i’r Aifft.” Roedd y brodyr yn methu dweud dim, mewn syndod ac ofn.



Fe wnaeth Joseff godi calon ei frodyr.
“Fe wnaeth Duw fi yn
bennaeth yn
yr Aifft er mwyn
i mi allu achub eich
bywydau yn y newyn
hwn.  Ewch i nôl fy
nhad.  Fe wna i ofalu
amdanoch chi.”

Cafodd Jacob a Joseff gyfarfod eto yn yr Aifft,

ac fe wnaeth y teulu i gyd fyw yno mewn heddwch, gyda digon o fwyd.



Duw yn anrhydeddu Joseff y Caethwas

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Genesis 39 - 45

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

# Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16